# STRATEGAETH ADDYSG AR GYFER DATBLYGU CYNALIADWY: YMGORFFORI CYNALIADWYEDD ERBYN 2030

## Nodau ac Ymrwymiad

Erbyn 2030, bydd holl raddedigion Prifysgol Aberystwyth yn ddinasyddion hyddysg yn y maes, a chanddynt wybodaeth a dealltwriaeth glir am 17 Nod Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (y 17 Nod), am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac am gynaliadwyedd. Byddant yn medru gwneud dewisiadau a phenderfyniadau moesegol-feddylgar. Rydym wedi dewis y flwyddyn 2030 i gyd-fynd â'n Strategaeth i gyrraedd sefyllfa sero net erbyn 2030, ac ag Agenda 2030 y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Datblygu Cynaliadwy.

Er mwyn cyflawni'r nod hwn, bydd y Brifysgol yn sicrhau bod Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy (ADC) a'r 17 Nod Datblygu Cynaliadwy yn rhan annatod o wead dysgu'r sefydliad, gan sicrhau y bydd yr holl fyfyrwyr wedi cael eu dysgu am yr angen i gymhwyso a datblygu cynaliadwyedd yn rhan o'u pwnc a'u harbenigedd, ac am y cyfleoedd a ddaw o hynny.

Nod y Brifysgol yw ymgorffori cynaliadwyedd yn llawn yn y cwricwlwm a ddysgir erbyn 2030, ac mae'r ddogfen hon yn strategaeth lefel-uchel sy'n amlinellu pa gamau a gymerwn tuag at hyn. Bydd y strategaeth yn cael ei datblygu a'i hadolygu mewn ymateb i unrhyw ddatblygiadau eraill a fo'n codi.

Rydym hefyd yn gobeithio, drwy'r strategaeth hon, annog staff a myfyrwyr i fod yn rhan o'r gwaith hwn, ac i chwarae rhan fwy ynddo, gan wella'r partneriaethau rhwng y brifysgol a chorff y myfyrwyr ac undeb y myfyrwyr.

Mae'r strategaeth hon wedi'i llywio gan 17 Nod y Cenhedloedd Unedig, yn ogystal â Chanllawiau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy, ynghyd ag amcanion dysgu UNESCO ar gyfer ADC a'r 8 cymhwysedd allweddol.

## Adolygu'r Strategaeth

Wrth ffurfio ein Grŵp Llywio ADC, bydd y strategaeth hon, a'r cynnydd yr ydym yn ei wneud tuag ati, yn cael eu hadolygu bob blwyddyn, a bydd manylion y cynnydd hwnnw'n cael eu cyhoeddi.

## Strategaeth

### Cam 1 – Archwiliadau a Phennu Gwaelodlin

Er mwyn deall ein sefyllfa bresennol o ran ADC, cynhelir arolygon ac archwiliadau ledled y brifysgol, gan gasglu safbwyntiau'r myfyrwyr a'r staff, yn ogystal â defnyddio Deallusrwydd Artiffisial i gynnal archwiliad i'r holl fodiwlau cyfredol i nodi'r cynnwys sy'n berthnasol i'r 17 Nod. Bydd y canlyniadau'n darparu gwaelodlin i'n grŵp llywio er mwyn gallu dilyn y datblygiadau wedyn.

| Gweithredu | Cyfrifoldeb | Erbyn pryd | A gyflawnwyd? |
|---|---|---|---|
| Dysgu ac Addysgu'r Brifysgol | | | |
| Archwilio holl fodiwlau'r brifysgol a llunio gwaelodlin o ddeunydd y cwricwlwm sy'n berthnasol i'r 17 Nod | Dr Alex Mangold | 08/24 | |
| Grymuso Myfyrwyr | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynnal Cynhadledd Cynaliadwyedd i'r Myfyrwyr, 2024-25 | Undeb y Myfyrwyr, Jess Farmer | 10/24 | |
| Cyfranogiad y Staff | | | |
| Ffurfio grŵp llywio ADC | Jess Farmer, Tim Woods | 06/24 | |

**Cam 2 – Hysbysu ac Addysgu**

Byddwn yn defnyddio'r gwaelodlinau a sefydlwyd yng ngham 1 i lywio ein penderfyniadau o ran cael cymorth allanol ar gyfer llunio fframwaith manylach ar gyfer gweithredu. Byddwn hefyd yn defnyddio'r gwaelodlinau hyn i ddatblygu adnoddau i wella gwybodaeth y staff am gynaliadwyedd a'r 17 Nod er mwyn sicrhau bod y staff academaidd yn hyderus o ran ymgorffori'r elfennau hynny yn eu modiwlau. Yn ogystal, bydd yr archwiliad yn cofnodi cryfderau a gwendidau penodol o ran deunydd sy'n berthnasol i'r 17 Nod rhwng y gwahanol adrannau ac yn galluogi dull mwy penodol o weithio. Bydd cyfleoedd i gymryd rhan yn cael eu hybu ymhlith y myfyrwyr a'r staff fel ei gilydd. Rydym hefyd yn awyddus i sefydlu cwrs ar-lein i fyfyrwyr ar gynaliadwyedd er mwyn datblygu gwybodaeth y myfyrwyr.

| Gweithredu | Cyfrifoldeb | Erbyn pryd | A gyflawnwyd? |
|---|---|---|---|
| Dysgu ac Addysgu'r Brifysgol | | | |
| Cael cymorth ar gyfer llunio cynllun gweithredu manwl | Tim Woods | 02/25 | |
| Teilwra'r deunydd ar gyfer y 17 Nod yn ôl cryfderau a gwendidau'r adrannau unigol ar sail canlyniadau'r archwiliad modiwlau | Dr Alex Mangold | 02/25 | |
| Grymuso Myfyrwyr | | | |
| Cadw cyswllt cyson ag Undeb y Myfyrwyr er mwyn cael adborth gan y myfyrwyr | Jess Farmer | Parhaus | |
| Cwrs cynaliadwyedd ar-lein i'r myfyrwyr | Dr Alex Mangold | 01/25 | |
| Cyfranogiad y Staff | | | |
| Datblygu adnoddau i gynorthwyo'r staff | Jess Farmer/Tim Woods | 06/25 | |

**Cam 3 – Gwella a Chyfnerthu**

Trwy gael y gwaelodlinau a thrwy gynyddu'r dysgu anffurfiol, bydd y 17 Nod yn cael eu hymgorffori'n ffurfiol yn y cwricwlwm, er enghraifft drwy sicrhau bod rhaid cynnwys deunydd perthnasol i'r 17 Nod wrth lunio modiwlau newydd. Bydd cefnogaeth barhaus ar gael i'r staff a'r myfyrwyr fel ei gilydd, gyda gwybodaeth a chyfleoedd i gymryd rhan i'w cael ar wefan y brifysgol Bydd hynny'n cynnwys gwybodaeth am y 17 Nod a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ogystal â mwy o wybodaeth gyffredinol am gynaliadwyedd.

| Gweithredu | Cyfrifoldeb | Erbyn pryd | A gyflawnwyd? |
|---|---|---|---|
| Dysgu ac Addysgu'r Brifysgol | | | |
| Bydd pob modiwl newydd yn cynnwys deunydd ar y 17 Nod | Tim Woods | 06/2028 | |
| Bydd adrannau wedi datblygu eu deunydd ar y 17 Nod ar sail y cryfderau/gwendidau a nodwyd yn yr archwiliad | Tim Woods | 06/2028 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Grymuso Myfyrwyr | | | |
| Adborth parhaus gan fyfyrwyr drwy adborth ar y Modiwlau a thrwy'r Undeb | Jess Farmer | Parhaus | |
| Cyfranogiad y Staff | | | |
| Cefnogaeth barhaus i staff | Jess Farmer | Parhaus | |